

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Cefn Carnau – Uned Sylfaen,
Uned Bryntirion ac Uned Derwen
Elysium Health Care (No. 3) Ltd

Dyddiad yr arolygiad: 10 – 12 Mai
2017

Dyddiad cyhoeddi: 14 Awst 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Mae pob uned yn cynnal cyfarfod cymunedol ward i fynegi ei safbwyntiau ar weithrediad yr ysbyty ac i gynnig awgrymiadau neu godi pryderon.....	11
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	21
4.	Beth nesaf?	25
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol	26
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ...	27
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	28

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Gonestrwydd: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredu: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gyfatebol.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:	Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.
Hybu gwelliant:	Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.
Dylanwadu ar bolisi a safonau:	Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd o Gefn Carnau fin nos 10 Mai ac yn ystod dyddiau 11 a 12 Mai 2017. Ymwelwyd â'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Uned Sylfaen
- Uned Bryntirion
- Uned Derwen

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un rheolwr arolygu AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd Deddf Iechyd Meddwl enwebedig), ac un adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Adolygwyd dogfennau ar gyfer cleifion a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 gennym yn ystod yr arolygiad hwn, er mwyn asesu cydymffurfiaid â'r Ddeddf.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Pan fo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ceir manylion pellach am y modd yr ydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Canfuwyd tystiolaeth gennym yn gyffredinol fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, canfuwyd tystiolaeth gennym fod y gofyniad i ddefnyddio lefelau o staff asiantaeth yn yr ysbyty yn effeithio ar y ddarpariaeth o ofal diogel ac urddasol, yn enwedig ar Uned Sylfaen.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd staff wardiau ac uwch-reolwyr yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion gyda pharch.
- Darparwyd amrywiaeth dda o weithgareddau i'r cleifion yn yr ysbyty ac yn y gymuned.
- Aseidiadau a monitro iechyd corfforol da wedi eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.
- Cynlluniau Gofal a Thriniaeth wedi eu cwblhau i adlewyrchu meysydd Mesur Cymru ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Recriwtio staff i swyddi gwag, a fydd yn lleihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth.
- Yr amgylchedd gofal yn rhan o'r rhaglen ailwampio bresennol.
- Mynediad at larymau personol i holl aelodau'r staff.
- Cofnodi meddyginiaeth ar Uned Sylfaen.

Nodwyd diffyg cydymffurfriad â rheoliadau gennym yn ystod yr arolygiad hwn o ran rheoli risg ac iechyd a diogelwch, rheoli meddyginiaethau, ac atal a rheoli heintiau. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir y bydd y darparwr cofrestredig yn cymryd camau ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfriad â rheoliadau.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Cefn Carnau wedi ei gofrestru i ddarparu ysbyty iechyd meddwl annibynnol yng Nghefn Carnau, Cefn Carnau Lane, Thornhill, Caerffili, CF83 1LX.

Cofrestrwyd y gwasanaeth gyntaf ar 11 Rhagfyr 2003. Mae'n ysbyty rhywiâu cymysg â 22 o welyau, gan gynnwys:

- Uned Sylfaen

Gwasanaeth diogelwch isel yn unig ar gyfer uchafswm o 8 (wyth) o oedolion benywaidd dros 18 (ddeunaw) oed â phrif ddiagnosis o anabledd dysgu ac a allai fod yn agored i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

- Uned Bryntirion

Gwasanaeth diogelwch isel yn unig ar gyfer uchafswm o 8 (wyth) o oedolion gwrywaidd dros 18 (ddeunaw) oed â phrif ddiagnosis o anabledd dysgu ac a allai fod yn agored i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

- Uned Derwen

Gwasanaeth diogelwch isel yn unig ar gyfer uchafswm o 6 (chwech) o oedolion gwrywaidd dros 18 (ddeunaw) oed â phrif ddiagnosis o anabledd dysgu ac a allai fod yn agored i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Roedd 18 o gleifion yn yr ysbyty ar adeg yr arolygiad.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys rheolwr yr ysbyty. Mae'r tîm amlddisgyblaeth yn cynnwys seiciatrydd ymgynghorol, rheolwr gwasanaethau clinigol, gweithiwr cymdeithasol, dau seicolegydd a chynorthwydd seicoleg, therapydd galwedigaethol a chynorthwywyr therapi galwedigaethol, therapyddion celf, tîm o nyrsys cofrestredig a chynorthwywyr gofal iechyd, a nyrs iechyd corfforol.

Gallai'r tîm hefyd gael gafael ar ddisgyblaethau eraill fel deietegydd, therapi lleferydd ac iaith, a ffisiotherapi.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan fo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom y staff yn trin cleifion gyda pharch wrth ddarparu gofal ailsefydlu unigodedig i gleifion. Gwelsom fod y staff yn sicrhau hawliau'r cleifion ac yn cynorthwyo'r cleifion i fod mor annibynnol â phosibl.

Codwyd pryderon gan gleifion a staff ynghylch y defnydd uchel o staff asiantaeth, y teimlwyd ei fod yn effeithio ar gysondeb gofal ag urddas.

Roedd hybu, diogelu a gwella iechyd yn amlwg yn yr ysbyty, gyda mewnbwn gan ddisgyblaethau amrywiol i gynorthwyo cleifion a monitro iechyd corfforol manwl.

Darparwyd amrywiaeth o wybodaeth gyfredol i gleifion i'w galluogi i wneud dewisiadau ynghylch eu gofal, eu triniaeth a'u llesiant. Fodd bynnag, gallai'r ysbyty wella hygyrchedd y wybodaeth trwy sicrhau ei bod ar gael yn newis iaith a fformat pob claf.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd yn amlwg bod hybu, diogelu a gwella iechyd yn rhan o'r gofal a ddarperir yng Nghefn Carnau. Roedd Strategaeth Iechyd a Llesiant Corfforol yn cael ei gweithredu a oedd yn cefnogi iechyd corfforol cleifion, a bydd hyn yn cynnwys Grŵp Llesiant cleifion.

Roedd nyrs iechyd corfforol ar gael yn yr ysbyty un diwrnod yr wythnos. Roedd yn gadarnhaol clywed bod yr ysbyty wedi creu swydd newydd nyrs practis llawn amser, a chadarnhaodd y darparwr cofrestredig ar adeg yr arolygiad ei fod wrthi'n recriwtio i'r swydd hon.

Roedd gan gleifion yng Nghefn Carnau basbortau ysbyty; mae'r rhain yn cynorthwyo pobl ag anabledau dysgu i ddarparu gwybodaeth bwysig i staff mewn ysbytai cyffredinol am yr unigolyn a'i iechyd corfforol pan fydd yn cael ei

dderbyn. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod y rhain yn anghyflawn ar gyfer pump o'r cleifion presennol yn yr ysbyty.

Roedd deietegydd a oedd yn mynd i'r ysbyty bob mis neu yn ôl y gofyn. Roedd y deietegydd yn cyfrannu at ddewisiadau'r fwydlen yn yr ysbyty i gynorthwyo i ddarparu amrywiaeth o opsiynau bwydlen cytbwys i gleifion yn yr ysbyty, yn ogystal â darparu cyngor arbenigol ar gyfer deiet cleifion unigol.

Roedd amrywiaeth eang o weithgareddau corfforol ar gael i'r cleifion yn yr ysbyty neu yn y gymuned ar gyfer y cleifion hynny a oedd â chaniatâd i adael yr ysbyty.

Roedd yr ysbyty hefyd yn rhoi'r opsiwn i gleifion gymryd rhan mewn rhaglen rhoi'r gorau i ysmegu os oeddent yn dymuno.

Urddas a pharch

Gwelsom fod staff wardiau ac uwch-reolwyr yn yr ysbyty yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol ac yn trin y cleifion gydag urddas a pharch. Roedd y staff i ni siarad â nhw yn frwdfrydig am sut yr oeddent yn cynorthwyo ac yn gofalu am y cleifion.

Clywsom y staff yn siarad â'r cleifion gyda lleisiau addfwyn trwy gydol ein harolygiad. Roedd tystiolaeth fod y staff yn annerch y cleifion gan ddefnyddio eu dewis o enw. Gwelsom staff yn ymddwyn gyda pharch tuag at y cleifion gan gynnwys rhyngweithio prydlon a phriodol mewn ymdrech i atal ymddygiad cleifion rhag gwaethygu.

Fodd bynnag, codwyd pryderon gan gleifion a staff ynghylch nifer ac ansawdd staff asiantaeth, a oedd yn effeithio ar yr ymgysylltiad â chleifion a lefel y gofal y dylid ei ddarparu. Eglurodd uwch-reolwyr yn yr ysbyty y byddent yn hysbysu'r asiantaeth na fyddai'r aelod o staff yn cael ei ddefnyddio eto gan esbonio'r rheswm/rhesymau pam pe bai pryderon ynghylch aelodau staff asiantaeth unigol.

Gofynnwyd am ganiatâd y cleifion pan ofynnwyd gennym i weld ystafell wely claf unigol neu fod yn bresennol mewn cyfarfodydd cleifion. Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun ac roedd yr ysbyty yn darparu gofal, triniaeth a chymorth i gleifion mewn unedau ar gyfer rhywiau penodol.

Gwelwyd nifer o ystafelloedd gwely cleifion ac roedd yn amlwg bod y cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd gwely a bod ganddynt le storio digonol ar gyfer eu heiddo. Roedd gan y cleifion eu hallweddi eu hunain ar gyfer eu

hystafelloedd gwely fel y gallent eu cloi a chael mynediad iddynt yn rhydd; roedd y staff yn gallu agor y cloeon os oedd angen.

Roedd Datganiad o Ddiben y darparwr cofrestredig hefyd yn disgrifio sut y byddai staff yr ysbyty yn cynorthwyo cleifion mewn ffyrdd a fyddai'n cynnal eu preifatrwydd a'u hurddas.

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Roedd manau yn yr ysbyty lle'r oedd gwybodaeth gyfredol i gleifion wedi ei harddangos yn eglur. Roedd gwybodaeth yn y dderbynfa, fel manylion eiriolaeth ac AGIC, ynghyd â gwybodaeth am weithrediad yr ysbyty.

Fodd bynnag, gellid gwella rhywfaint o'r wybodaeth sydd wedi ei harddangos ar draws yr ysbyty i fod yn benodol i anabledau dysgu ac mewn fformat addas fel hawdd ei ddarllen / lluniau. Prin hefyd yw'r wybodaeth sydd wedi ei harddangos yn y Gymraeg, ac rydym yn argymhell y dylai'r wybodaeth hon gael ei harddangos yn y Gymraeg hefyd ar gyfer y cleifion hynny y mae'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion yn eu dewis o iaith a fformat.

Cyfathrebu'n effeithiol

Trwy ein harsylwadau o ryngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu â chleifion yn effeithiol. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau gan ddefnyddio geiriau ac iaith sy'n addas i'r claf unigol. Pan oedd cleifion yn dal i fod yn aneglur neu'n cael eu camddeall, byddai'r staff yn egluro'r hyn yr oeddent wedi ei ddweud yn amyneddgar.

Roedd nifer o gyfarfodydd a oedd yn cynnwys cleifion a staff, ac roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd cynllunio gofal ffurfiol a chyfarfodydd cymunedol grŵp.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai'r cleifion gael cymorth gan gyrrff allanol i ddarparu cymorth a chyfarwyddyd, fel cyfreithwyr neu eiriolaeth. Roedd teuluoedd a gofalwyr cleifion hefyd yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd unigol.

Roedd cyfarfodydd cleifion wedi'u cofnodi rheolaidd gydag aelodau staff uwch yn bresennol. Roedd y cleifion yn gallu mynegi eu safbwyntiau ar weithrediad yr ysbyty a chynnig awgrymiadau neu godi pryderon.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd pwyslais eglur ar adsefydlu cleifion, â champau wedi eu mesur ar gyfer rhyddhau i amgylchedd llai cyfyngol.

Roedd gan bob claf ei gynlluniwr gweithgareddau unigol ei hun, a oedd yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp wedi eu lleoli yn yr ysbyty ac yn y gymuned (roedd awdurdodiad ar waith pan oedd ei angen).

Gwelsom fod gweithgareddau ar gael i'r cleifion yn yr ysbyty neu yn y gymuned ar gyfer y cleifion hynny a oedd â chaniatâd i adael yr ysbyty. Roedd y staff a'r cleifion yn llawn canmoliaeth i'r gweithgareddau ac i'r tîm therapi galwedigaethol.

Gwelsom gleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau unigol a grŵp drwy'r arolygiad, yn yr ysbyty a chyda mynediad at y gymuned.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd dogfennau cyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Ymgysylltiad ac adborth dinasyddion

Roedd yr ysbyty yn darparu llyfr sylwadau a chŵynion i'r cleifion ar bob uned, er mwyn cynnig adborth ar y gofal y maent yn ei dderbyn. Roedd llyfr adborth cegin hefyd, i bob un o'r tair uned ddarparu gwybodaeth i staff y gegin.

Mae pob uned yn cynnal cyfarfod cymunedol ward i fynegi ei safbwyntiau ar weithrediad yr ysbyty ac i gynnig awgrymiadau neu godi pryderon.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd y faith fod rhaglen ailwampio'r ysbyty wedi cychwyn yn ddiweddar yn cynnig tystiolaeth fod y darparwr cofrestredig wedi ymrwmo i wella amgylchedd yr ysbyty i ddarparu lleoliad a oedd yn fodern ac yn addas ar gyfer y grŵp cleifion.

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith yn yr ysbyty i reoli risg a diogelwch, i reoli heintiau ac i reoli meddyginiaethau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Fodd bynnag, roedd y diffyg larymau personol, hepgoriadau meddyginiaeth ar Uned Sylfaen, a'r defnydd uchel o staff asiantaeth i gynnal lefelau gofynnol o arsylwadau cleifion estynedig yn effeithio'n negyddol ar ddiogelwch yn yr ysbyty, yn enwedig ar Uned Sylfaen.

Roedd dogfennau cyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth y cleifion yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd y darparwr cofrestredig wedi cychwyn rhaglen ailwampio ar gyfer yr ysbyty; roedd gwaith wedi cychwyn yn y bloc gweithgarwch a gwaith pellach wedi ei drefnu i ailwampio pob un o'r unedau cleifion. Er bod hyn yn gadarnhaol ac i ni weld bod amgylchedd yr ysbyty yn lân gydag asesiadau risg amgylcheddol i gynnal diogelwch, roedd manau drwy'r ysbyty cyfan hefyd, fel dodrefn, gosodiadau a ffitiadau, a oedd wedi gwisgo ac yr oedd angen eu trwsio neu eu disodli.

Yn rhan o'r rhaglen ailwampio, dywedodd y darparwr cofrestredig y byddai'r dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau yn cael eu disodli gyda rhai o'r safon briodol ar gyfer lleoliadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu diogelwch isel.

Tynnwyd ein sylw at ddau fan lle'r oedd perygl i ddiogelwch ar Uned Bryntirion yn ystod yr arolygiad. Fe'n hysbyswyd bod claf wedi cael mynediad at y fynedfa i'r atig a chaead twll archwilio yn yr ardd ddiogel. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau bod pob man nad yw ar gyfer cleifion a phob pwynt mynediad i gyfleusterau wedi eu diogelu i atal mynediad.

Roedd mynediad at dir yr ysbyty trwy glwyd ddiogel wedi ei rheoli gan intercom i'r dderbynfa neu allwedd electronig y staff. Roedd holl adeiladau'r ysbyty wedi eu diogelu gan fynediad allwedd hefyd.

Roedd yr ysbyty yn darparu larymau personol i'r staff ar ddechrau pob sifft. Roedd prinder larymau personol ar adeg yr arolygiad, a oedd yn golygu nad oedd digon ar gyfer yr holl staff yn yr ysbyty. Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig fod larymau ychwanegol wedi eu harchebu a'i fod yn disgwyl iddynt gael eu danfon. Roedd trefniadau ar waith i sicrhau nad oedd unrhyw aelodau staff yn gweithio ar eu pen eu hunain heb larwm.

Roedd asesiad risg pwyntiau rhwymynnau cyfredol ar waith, a oedd yn nodi pwyntiau rhwymynnau posibl a pha gamau oedd wedi cael eu cymryd i gael gwared ar y rhain neu eu rheoli.

Yn yr wythnosau blaenorol ac ar adeg ein harolygiad, roedd lefel aciwtedd cleifion wedi arwain at yr angen am nifer uchel o arsylwadau cleifion estynedig i reoli ymddygiadau peryglus cleifion cysylltiedig. Dywedodd rhai cleifion eu bod yn teimlo'n gythryblus am ymddygiadau cleifion eraill a bod hyn yn effeithio'n negyddol ar ba mor ddiogel yr oeddent yn ei deimlo yn yr ysbyty.

Trwy arsylwi cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth a sgysiau gyda'r staff, roedd yn amlwg bod y darparwr cofrestredig yn rheoli ymddygiadau cleifion yn briodol tra bod lleoliad ysbyty amgen yn cael ei gadarnhau. Fodd bynnag, roedd yr angen i ddefnyddio staff asiantaeth er mwyn helpu i fodloni'r gofynion lefelau arsylwi cleifion estynedig yn effeithio ar allu'r tîm staff i ddarparu gofal i'r holl gleifion ar Uned Sylfaen.

Nid oedd siartiau arsylwi cleifion estynedig yn gwbl gyflawn bob amser ac nid oeddent yn cynnwys y manylder sy'n ofynnol yn ôl polisi'r darparwr cofrestredig. Nid oeddent bob amser yn cofnodi'r manylder gofynnol felly i gynnig tystiolaeth fod y staff yn sicrhau bod y claf yn ddiogel ac yn iach.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau bod yr holl fannau nad ydynt ar gyfer cleifion yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod nifer digonol o larymau personol i'r holl staff feddu ar un.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y siartiau arsylwi cleifion estynedig yn cael eu cwblhau'n gywir.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Gwelsom drwy gydol yr arolygiad bod yr ysbyty yn amlwg yn lân ac yn rhydd o annibendod. Roedd offer glanhau wedi eu storio a'u trefnu'n briodol. Roedd cofnodion o amserlenni glanhau yn cael eu cynnal a oedd yn cynnig tystiolaeth o lanhau rheolaidd.

Roedd cynhyrchion hylendid dwylo ar gael mewn manau perthnasol o gwmpas yr ysbyty; roedd arwyddion ac arwyddluniau i gyd-fynd â'r rhain. Roedd gan y staff fynediad hefyd at gyfarpar diogelu personol atal a rheoli heintiau a dadheintio hefyd yn ôl y gofyn. Roedd un peiriant hylif golchi dwylo ar goll ar Uned Sylfaen ac mae'n rhaid disodli hwn.

Roedd 2.5 o weithwyr cadw tŷ Cyfwerth ag Amser Llawn ar gyfer safle'r ysbyty. Fe'n hysbyswyd nad oedd cymorth wrth gefn yn cael ei ddarparu yn ystod cyfnodau o absenoldeb ac felly roedd y staff a oedd yn weddill yn cael trafferth yn cyflawni'r dyletswyddau gofynnol. Roedd hyn yn cael effaith bosibl ar weithdrefnau atal a rheoli heintiau'r ysbyty.

Nodwyd gennym yn ystod noson gyntaf ein harolygiad bod arogl annymunol yn un o'r toiledau ar Uned Bryntirion a bod un o'r gweithwyr cadw tŷ yn absennol o'r gwaith ar yr adeg hon. Derbyniwyd sylwadau gennym hefyd gan un claf nad yw'r cyfleusterau toiled bob amser mor lân ag y gallent fod ar adegau, ond nid oedd yn gallu rhoi unrhyw ddyddiadau neu amseroedd penodol i ni.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod peiriannau hylif golchi dwylo yn y manau gofynnol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod adnoddau staff domestig

digonol a threfniadau wrth gefn yn yr ysbyty i gynnal amgylchedd glân ar gyfer y cleifion.

Maetheg

Darparwyd prydau bwyd i'r cleifion yn yr ysbyty, a oedd yn cynnwys brecwast, cinio, cinio'r hwyr a swper. Roedd y cleifion yn dewis eu prydau o fwydlen yr ysbyty, a oedd ar gylch pedair wythnos ac yn newid yn dymhorol. Roedd gan y cleifion fynediad hefyd at fyrbrydau ynghyd â diodydd poeth ac oer.

Roedd deietegydd a oedd yn mynychu'r ysbyty bob mis neu yn ôl y gofyn. Roedd y deietegydd yn cyfrannu at ddewisiadau bwydlen yr ysbyty er mwyn cynorthwyo i gynnig amrywiaeth o opsiynau bwydlen cytbwys i gleifion yn yr ysbyty yn ogystal â darparu cyngor arbenigol ar gyfer deiet cleifion unigol.

Roedd y bwydlenni yn cynnwys lluniau i gynorthwyo cleifion a allai gael anhawster yn darllen. Fodd bynnag, roedd yn anodd dehongli rhai o'r lluniau oherwydd eu maint neu ansawdd y llun.

Cadarnhaodd y cleifion a'r staff fod staff y gegin yn hyblyg gan gynnig opsiynau ychwanegol neu amrywiadau i opsiynau'r fwydlen i ddiwallu anghenion cleifion a bodloni eu dymuniadau.

Roedd ceginau cleifion ar bob un o'r wardiau a chegin therapi galwedigaethol yn y bloc gweithgareddau, a oedd yn galluogi'r cleifion i baratoi eu prydau eu hunain a datblygu eu sgiliau.

Gallai cleifion â chaniatâd fynd i'r gymuned i brynu eitemau bwyd a chynhwysion. Nodwyd gennym hefyd y byddai staff y wardiau a staff y gegin yn prynu eitemau bwyd a chynhwysion penodol ar ran y cleifion os nad oedd ganddynt ganiatâd i wneud hynny eu hunain.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei bod yn hawdd adnabod opsiynau lluniau ar y bwydlenni i gynorthwyo'r cleifion.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y broses rheoli meddyginiaethau gyffredinol yn yr ysbyty yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd meddyginiaeth wedi ei storio'n ddiogel gyda chypyrddau ac oergelloedd meddyginiaeth wedi eu cloi. Roedd trolïau meddyginiaeth wedi eu cloi a'u glynu at y wal pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Roedd tystiolaeth fod archwiliadau tymheredd rheolaidd ar yr oergell feddyginiaeth a thymheredd yr ystafell glinig i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a gynghorir gan y gweithgynhyrchydd.

Adolygwyd siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth gennym ar Uned Bryntirion ac Uned Sylfaen. Roedd yr holl siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth a adolygwyd ar Uned Bryntirion yn cynnwys enw'r claf a'i statws cyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd y siartiau wedi eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan oedd meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi, a rheswm yn cael ei gofnodi pan nad oedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi.

Fodd bynnag, roedd siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth anghyflawn ar Uned Sylfaen gyda chofnodion o roi meddyginiaeth neu pan wrthodwyd meddyginiaeth gan y claf wedi eu hepgor. Hefyd, roedd meddyginiaeth hylif ar Uned Sylfaen nad oedd ei dyddiad agor wedi ei gofnodi; felly ni allai'r staff gadarnhau pa mor hir oedd wedi bod ar agor.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod dau glaf yn cael eu cynorthwyo i gymryd meddyginiaeth eu hunain yn rhan o'u cynlluniau gofal. Roedd prosesau priodol ar waith yn yr ysbyty i gefnogi hyn.

Nid oedd unrhyw gyffuriau a reolir yn cael eu storio neu'n cael eu defnyddio ar adeg yr arolygiad. Roedd Cyffuriau Agored i Gamddefnydd ac roedd y rhain wedi eu cofnodi'n gywir ac yn cael eu harchwilio'n feunyddiol.

Cynhelid archwiliad fferyllol allanol rheolaidd sy'n cynorthwyo'r gwaith o reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaeth yn yr ysbyty. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod camgymeriadau yn cael eu nodi dro ar ôl tro gan yr archwiliad ac nad oedd bob amser yn gwella arfer y staff.

Roedd gan y staff fynediad at yr holl bolisiâu rheoli meddyginiaeth perthnasol yn yr ysbyty ynghyd â'r Llyfr Fformiwlâu Prydain cyfredol.¹

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cofnodi'r dyddiad agor ar gyfer pob meddyginiaeth hylif.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn sgil y meysydd i'w gwella a nodwyd gan yr archwiliad fferyllol i wella arfer y staff.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn diogelu oedolion a phlant agored i niwed, gydag atgyfeiriadau i asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd ystafell glinig ym mhob un o'r unedau yn yr ysbyty ag archwiliadau wythnosol o offer dadebru. Adolygwyd yr archwiliadau a'r offer dadebru ar Uned Bryntirion ac Uned Sylfaen a chanfuwyd gennym fod yr archwiliadau yn cael eu cynnal pan fo'u hangen a bod yr holl offer dadebru yn gyfredol.

Roedd y cyffuriau brys ar gyfer yr ysbyty wedi eu storio yn yr ystafell glinig ar Uned Sylfaen. O siarad â'r staff, roedd rhai ohonynt yn aneglur a oedd cyffuriau brys ar bob uned neu ar Uned Sylfaen yn unig.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y rhain wedi cael eu symud yn ddiweddar o'r swyddfa nyrsio ar Uned Sylfaen. Roedd rhai arwyddion o gwmpas yr ysbyty yn hen ac nid oeddent yn dangos lleoliad cywir y cyffuriau brys; mae'n rhaid

¹ Llyfr cyfeirio fferyllol yw Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain sy'n cynnwys ystod eang o wybodaeth a chyngor ar ragnodi a ffarmacoleg, ynghyd â ffeithiau a manylion penodol am feddyginiaethau unigol.

diweddarau'r rhain i atal unrhyw oedi wrth gael gafael ar y cyffuriau brys. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn gwybod ble mae'r cyffuriau brys wedi eu lleoli yn yr ysbyty.

Roedd torwyr rhwymynnau ar bob ward wedi eu storio mewn man neilltuedig. Fodd bynnag, nid oedd y torwyr rhwymynnau ar Uned Bryntirion wedi eu storio gyda'r offer dadebru yn yr ystafell glinig; gallai hyn achosi oedi cyn cael gafael ar y torwyr rhwymynnau ac offer dadebru o ddau wahanol leoliad. Cadarnhawyd yn ystod adborth yr arolygiad y byddai torwyr rhwymynnau ychwanegol yn cael eu storio gyda'r offer dadebru.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn gwybod ble mae'r cyffuriau brys wedi eu lleoli yn yr ysbyty.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl arwyddion yn dangos y lleoliad cywir ar gyfer cyffuriau brys yr ysbyty.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau bod torwyr rhwymynnau wedi eu storio gyda'r offer dadebru ar bob ward.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yng Nghefn Carnau yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol. Mae'r defnydd uchel o staff asiantaeth wedi effeithio'n negyddol ar deimladau rhai cleifion o ddiogelwch a'u hurddas. Cododd staff parhaol eu pryderon hefyd am y defnydd uchel o staff asiantaeth a gallu rhai aelodau staff asiantaeth.

Fodd bynnag, mae uwch-reolwyr yng Nghefn Carnau yn rhoi sicrwydd eu bod yn ymdrechu i lenwi swyddi i leihau'r gofyniad i ddefnyddio staff asiantaeth. Cadarnhawyd ganddynt hefyd bod prosesau priodol ar waith i wirio set sgiliau staff asiantaeth cyn iddynt ddechrau gweithio yn yr ysbyty a threfniadau o roi'r gorau i ddefnyddio staff asiantaeth unigol os byddant yn cyflawni eu dyletswyddau'n wael.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion cleifion naill ai'n electronig, a oedd wedi eu diogelu gan gyfrinair, neu'n ffeiliau papur a oedd yn cael eu storio a'u cynnal yn y swyddfa nyrsio, a oedd wedi ei chloi. Gwelsom staff yn storio'r cofnodion yn briodol yn ystod ein harolygiad.

Roedd gan bob claf yng Nghefn Carnau sawl gwahanol gofnod o wybodaeth gofal. Fodd bynnag, gallai dilyn gofal a thriniaeth claf unigol fod yn gymhleth a chymryd llawer o amser ar draws y cofnodion unigol. Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig eu bod yn adolygu'r dogfennau cadw cofnodion i leihau nifer y systemau sydd ar waith.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cadw statudol tri o gleifion ar draws y tair ward yng Nghefn Carnau.

Roedd yn amlwg bod achosion o gadw wedi cael eu cymhwyso a'u hadnewyddu yn unol â gofynion y Ddeddf. Roedd copïau o ddogfennau cyfreithiol wedi eu trefnu'n briodol yn ffeiliau'r cleifion.

Roedd tystysgrifau cydsyniad i driniaeth yn cael eu cadw gyda'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth (siart MAR) cyfatebol. Roedd hyn yn golygu y gallai staff sy'n rhoi meddyginiaeth gyfeirio at y dystysgrif i sicrhau bod y feddyginiaeth wedi cael ei rhagnodi o dan ddarpariaethau cydsyniad i driniaeth Adran 58 y Ddeddf. Pan oedd meddyginiaeth PRN² wedi cael ei gofnodi ar y siartiau MAR, roedd y rheswm pam roedd angen meddyginiaeth PRN wedi ei gofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Roedd tystiolaeth wedi ei chofnodi'n drwyadl o gleifion yn derbyn eu hawliau statudol o dan y Ddeddf. Roedd tystiolaeth fod rhai cleifion yn cael eu cynorthwyo gan y gwasanaeth eirioli. Fodd bynnag, dylid gwella'r ddarpariaeth o wybodaeth mewn fformat hawdd ei ddarllen, yn enwedig am wasanaeth(au) eirioli, i gynorthwyo dealltwriaeth rhai cleifion. Amlygwyd y gwelliant hwn yn gynharach yn yr adroddiad.

Roedd asesiadau risg cleifion yn fanwl iawn. Roedd awdurdodiadau Adran 17 wedi eu cwblhau a'u cynnal ar ffeil yn nhrefn eu dyddiadau. Pan oedd angen awdurdodiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder, roedd copïau o'r rhain yn cael eu cadw ochr yn ochr ag awdurdodiad absenoldeb cyfatebol y clinigydd cyfrifol.

² Meddyginiaeth a ragnodir i gael ei rhoi yn ôl yr angen ac nid ar adegau rheolaidd yw meddyginiaeth PRN.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau gofal cyfanswm o dri o gleifion.

Roedd tystiolaeth fod cydgysylltwyr gofal wedi cael eu nodi ar gyfer y cleifion ac roedd aelodau priodol o'r teulu yn cael eu cynnwys mewn trefniadau cynllunio gofal pan fo'n briodol. Adolygwyd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn rheolaidd.

Roedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru. Fodd bynnag, roedd yn ddigwyddiad cyffredin nad oedd staff yn cofnodi unrhyw anghenion heb eu diwallu a allai fod gan glaf wrth iddo dderbyn gofal yn yr ysbyty. Mae'n bwysig bod anghenion heb eu diwallu yn cael eu cofnodi fel y gall y rhain gael eu hadolygu'n rheolaidd gan y tîm amlddisgyblaeth i ystyried opsiynau ar gyfer diwallu'r anghenion hynny. Bydd cofnodi anghenion heb eu diwallu hefyd yn cynorthwyo'r darparwr cofrestredig i ddeall ei anghenion gwasanaeth.

Roedd asesiadau a gwaith monitro iechyd corfforol manwl iawn wedi eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion, ond nid oedd gan yr holl gleifion Basbortau Iechyd Cyfredol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod anghenion heb eu diwallu'r cleifion yn cael eu cofnodi yn eu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan yr holl gleifion Basbortau Iechyd Cyfredol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda gan y tîm amlddisgyblaeth yng Nghefn Carnau. Roedd tîm staff ymroddedig yr oedd yn ymddangos bod ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o anghenion y cleifion yn yr ysbyty.

Oherwydd newidiadau i berchnogaeth Cefn Carnau, roedd yr ysbyty yn mynd trwy gyfnod o newid i systemau electronig, ac felly roedd anhawster yn gwirio hyfforddiant staff ac yn dadansoddi gwybodaeth am ddigwyddiadau. Fodd bynnag, fe'n sicrhawyd y bu monitro parhaus o'r meysydd hyn ac y bydd hyn yn parhau pan fydd y systemau newydd yn cael eu cyflwyno.

Roedd defnydd uchel o staff asiantaeth yn yr ysbyty, ac roedd hyn yn effeithio ar y ddarpariaeth o ofal ac ysbyrd y staff parhaol. Rhoddodd y darparwr cofrestredig sicrwydd bod gwaith recriwtio i swyddi gwag yn parhau i leihau'r defnydd o asiantaethau a chynnig tîm staff mwy sefydlog.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Canfuwyd gennym fod systemau a phrosesau wedi eu diffinio'n dda ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau yn barhaus. Gwnaed hyn yn rhannol trwy raglen barhaus o archwilio a'i strwythur llywodraethu sefydledig, a oedd yn galluogi aelodau staff allweddol/enwebedig i gyfarfod yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth o ofal cleifion. Roedd y trefniadau hynny yn cael eu cofnodi fel y gellir eu hadolygu.

Roedd gan uwch-reolwyr a nodwyd gyfrifoldebau penodol am sicrhau bod y rhaglen lywodraethu yn parhau i fod yn flaenllaw yn narpariaeth y gwasanaeth. Canfuwyd gennym fod y staff wedi ymrwymo i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel.

Bu nifer o newidiadau sylweddol i'r berchnogaeth, y rheolwyr a'r tîm amlddisgyblaeth ers ein harolygiad blaenorol. Bu newid i'r darparwr cofrestredig o Priory Healthcare i Elysium Health Care (No. 3) Ltd. Roedd rheolwr ysbyty newydd wedi cael ei benodi ynghyd â phenodiadau parhaol o seiciatrydd ymgynghorol a dau seicolegydd.

Roedd gwaith tîm amlddisgyblaethol cryf gyda'r staff yn gwneud sylwadau ffafriol am ei gilydd ac yn dweud eu bod yn teimlo y gwrandewir ar eu safbwyntiau a'u bod yn cael eu parchu gan aelodau staff eraill.

Roedd yn gadarnhaol bod y staff yng Nghefn Carnau yn croesawu ein safbwyntiau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion trwy gydol yr arolygiad.

Ymdrin â chŵynion a rheoli digwyddiadau

Roedd proses adrodd digwyddiadau yng Nghefn Carnau, ac roedd y darparwr cofrestredig wrthi'n trosglwyddo i system cofnodi digwyddiadau newydd ar adeg yr arolygiad.

Darparodd yr uwch-reolwyr drosolwg o'r system flaenorol a sut yr oedd digwyddiadau'n cael eu cofnodi a'u monitro. Gallem weld bod digwyddiadau'n cael eu hadolygu ac yn nodi meysydd ar gyfer gwersi a ddysgwyd. Roedd yn galonogol clywed y byddai'r system adrodd digwyddiadau newydd yn gallu darparu adroddiadau manwl ar ddigwyddiadau, a fydd yn cynorthwyo staff i nodi tueddiadau a dysgu o ddigwyddiadau.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Oherwydd y newid i berchnogaeth Cefn Carnau, roedd y system ar gyfer cofnodi a monitro hyfforddiant wrthi'n cael ei throsglwyddo o un system i un arall. Adolygwyd y cofnodion hyfforddi staff a gadwyd ar gyfer aelodau staff unigol a nodwyd ar y cyfan bod cydymffurfiad uchel o ran staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol.

Fodd bynnag, oherwydd nad dyma'r wybodaeth fwyaf diweddar, nid oeddem yn gallu gwirio cwblhad hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff yn yr ysbyty, gan fod y cofnodion yn nodi nad oedd rhai aelodau staff wedi cwblhau meysydd o hyfforddiant gorfodol. Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig yn yr adborth i'r arolygiad y byddai'n sicrhau y bydd y staff yn cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

Roedd goruchwyliaeth glinigol a goruchwyliaeth grŵp ar gael i'r staff; siaradodd y staff yn ffafriol am y rhain.

Roedd gan yr ysbyty bum swydd nyrs gofrestrdig wag ar adeg yr arolygiad. Roedd dau asesiad yn cael eu prosesu ac roedd pum cynorthwydd gofal iechyd ar fin cael eu penodi hefyd. Dangosodd y darparwr cofrestrdig ei fod yn gwneud ymdrech ymarferol i recriwtio i swyddi gwag. Roedd angen defnyddio goramser staff, staff cronfa a staff asiantaeth i wneud iawn am y diffyg.

Gwaethygydd y defnydd o oramser staff, staff cronfa a staff asiantaeth gan y lefel uchel o arsylwadau estynedig a oedd ar waith i reoli ymddygiadau heriol rhai cleifion. Cadarnhaodd rheolwr yr ysbyty y byddai'r rhaglen recriwtio barhaus yn parhau i leihau'r defnydd o staff asiantaeth cyn belled â phosibl.

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, codwyd pryderon gan gleifion a staff am nifer ac ansawdd staff asiantaeth, a oedd yn effeithio ar yr ymgysylltu â chleifion a lefel y gofal y gellid ei ddarparu. Eglurodd uwch-reolwyr yn yr ysbyty y byddent yn hysbysu'r asiantaeth na fyddai'r aelod o staff yn cael ei ddefnyddio eto gan esbonio'r rheswm/rhesymau pam pe bai pryderon ynghylch aelodau staff asiantaeth unigol.

O ystyried y pryderon i ni eu clywed gan y staff a'r cleifion, dylai'r darparwr cofrestrdig atgoffa'r staff a'r cleifion, os oes ganddynt bryderon am staff asiantaeth (neu staff parhaol), bod rhaid iddynt dynnu sylw'r darparwr cofrestrdig yn gyfrinachol at y rhain.

Dywedodd rhai staff hefyd fod ysbryd y staff yn isel, gan ddynodi'r ansicrwydd yn ystod y newid perchnogaeth, lefel aciwtedd y cleifion ar Uned Sylfaen, a'r lefel uchel o ddefnydd o asiantaethau i fodloni gofynion staffio. Roedd yn gadarnhaol clywed yn ystod adborth yr arolygiad bod yr uwch-reolwyr yn deall yr anawsterau a wynebir gan staff y wardiau a'u bod yn agored i awgrymiadau gan y staff ynghylch sut i wella ysbryd staff yr ysbyty.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestrdig sicrhau bod y staff yn cael eu cynorthwyo i gwblhau hyfforddiant gorfodol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestrdig sicrhau y penodir i swyddi gwag.

Recriwtio'r gweithlu ac arferion cyflogaeth

Esboniodd y staff y prosesau recriwtio a oedd ar waith yng Nghefn Carnau. Roedd yn amlwg bod systemau ar waith i sicrhau bod gwaith recriwtio yn dilyn

proses agored a theg. Cyn cyflogi, roedd tystlythyrau staff yn cael eu derbyn, archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal a chymwysterau proffesiynol yn cael eu gwirio.

Roedd y darparwr cofrestredig yn cadw ffeiliau staff asiantaeth, a oedd yn cynnwys manylion hyfforddiant perthnasol ac archwiliadau cyflogaeth.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau, maent wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Pan fyddwn yn nodi unrhyw ddiffyg cydymffurfio a phryderon difrifol am ddiogelwch a llesiant cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu trwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol a dyma'r cam cyntaf mewn proses a allai arwain at achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ddirybudd fel rheol. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd gan fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y ffordd y maent yn gweithredu fel rheol. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Caiff adborth ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd pob arolygiad, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut y mae gwasanaethau:

- Yn cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#) a [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#) a gweithrediad y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Yn cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Yn cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Yn bodloni'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel sy'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir rhagor o fanylion am sut y mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) ac [annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y claf	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Cefn Carnau

Wardiau: Uned Bryntirion, Uned Derwen ac Uned Sylfaen

Dyddiad yr arolygiad: 8 – 10 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion yn eu dewis o iaith a fformat.	9. Gwybodaeth a chydsyniad cleifion	<p>Gofynnir i'r holl gleifion yn yr asesiad cyn-derbyn pa iaith sy'n well ganddynt a byddai cynllun gofal ar gyfer hyn wrth dderbyn.</p> <p>Byddem yn neilltuo staff sy'n siarad Cymraeg i fod yn nhîm nyrsio'r claf os dyna ddymuniad y claf.</p> <p>Mae ein heiriolwr yn ddwyieithog.</p> <p>Gellir gwneud taflenni gwybodaeth ar gael mewn gwahanol ieithoedd fel sy'n ofynnol.</p>	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau bod yr holl fannau nad ydynt ar gyfer cleifion yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Mae gorchudd yr atig wedi cael ei ddiogelu ac felly hefyd caead y twll archwilio. Ychwanegwyd hyn at y Rhestr Gwirio Iechyd a Diogelwch fisol.	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Clinigol	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod nifer digonol o larymau personol i'r holl staff feddu ar un.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Archebwyd 25 o larymau personol ychwanegol ac maent ar gael i'w defnyddio erbyn hyn.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y siartiau arsylwi cleifion estynedig yn cael eu cwblhau'n gywir.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Mae Polisi Arsylywi Diogel a Chefnogol newydd Elysium wedi cael ei gyflwyno ar draws y safle ers yr arolygiad ac mae'n cael ei fonitro trwy oruchwyliaeth rheolwyr. Mae'r tafenni arsylywi yn destun craffu yn ystod cyfarfodydd rheolwyr ward yn wythnosol.	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Clinigol	30 Mehefin 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod peiriannau hylif golchi dwylo yn y manau gofynnol.	13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Newidiwyd y peiriant hylif golchi dwylo ar Ward Sylfaen. Mae peiriannau hylif golchi dwylo wedi cael eu hychwanegu at yr archwiliad cerdded misol i'r amgylchedd.	Rheolwr Cadw Tŷ Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Clinigol	Cwblhawyd 30 Mehefin 2017
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod adnoddau staff domestig digonol a threfniadau wrth gefn yn yr ysbyty i gynnal amgylchedd glân ar gyfer y cleifion.	13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Os bydd aelod o staff cadw tŷ yn absennol neu'n sâl, ni fydd y staff sy'n weddill yn gwasanaethu'r meysydd staff ac yn cynnal y manau i gleifion. Bydd y staff yn gwagio eu biniau eu hunain ac yn glanhau eu swyddfeydd eu hunain.	Rheolwr y Gwasanaethau Cymorth	30 Mehefin 2017
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei bod yn hawdd adnabod opsiynau lluniau ar y bwydlenni i gynorthwyo'r cleifion.	14. Maetheg	Bydd y bwydlenni lluniau yn cael eu hadolygu a'u diwygio gyda lluniau newydd mewn fformat mwy.	Rheolwr y Gwasanaethau Cymorth	30 Mehefin 2017
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir.	15. Rheoli meddyginiaethau	Bydd Archwiliad Ystafelloedd Clinig Elysium yn cael ei gyflwyno yn yr wythnos sy'n cychwyn ar 5 Mehefin 2017; bydd hwn yn cael ei gwblhau gan	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Clinigol	30 Mehefin 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>staff nyrsio ac yn cael ei fonitro gan reolwyr y wardiau.</p> <p>Rheolwyr y wardiau i ddefnyddio Golwg Byw ar Wasanaethau Fferyllol Ysbyty Ashtons yn wythnosol a chymryd camau yn sgil unrhyw bryderon a nodwyd yn ystod archwiliad Gwasanaethau Fferyllol Ysbyty Ashtons.</p> <p>Bydd unrhyw gamgymeriadau meddyginiaeth yn cael eu rheoli trwy oruchwyliaeth reoli.</p>	<p>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Clinigol</p> <p>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Clinigol</p>	<p>30 Mehefin 2017</p> <p>Cwblhawyd</p>
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cofnodi'r dyddiad agor ar gyfer pob meddyginiaeth hylif.</p>	<p>15. Rheoli meddyginiaethau</p>	<p>Anfonwyd e-bost at y staff nyrsio yn eu hatgoffa am eu cyfrifoldeb i labelu poteli pan fyddant yn cael eu hagar.</p> <p>Darparwyd labeli i'r staff.</p> <p>Bydd hyn yn cael ei fonitro trwy archwiliad Gwasanaethau Fferyllol Ysbyty Ashtons.</p>	<p>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Clinigol</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod</p>	<p>15. Rheoli</p>	<p>Mae gan reolwyr y wardiau fynediad at</p>	<p>Cyfarwyddwr y</p>	<p>30 Mehefin</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
camau'n cael eu cymryd yn sgil y meysydd i'w gwella a nodwyd gan yr archwiliad fferyllol i wella arfer y staff.	meddyginiaethau	olwg byw Gwasanaethau Fferyllol Ysbyty Ashtons a byddant yn derbyn e-bost yn eu hysbysu bod adroddiadau ar gael i'w gweld yn dilyn archwiliad. Bydd cyfarfodydd rheoli meddyginiaeth misol yn cael eu hwyluso gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Clinigol i hybu dysgu o gamgymeriadau a hybu gwelliannau yn y dyfodol.	Gwasanaethau Clinigol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Clinigol	2017 Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn gwybod ble mae'r cyffuriau brys wedi eu lleoli yn yr ysbyty.	16. Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Mae'r arwyddion wedi cael eu diweddarau a byddant yn cael eu harddangos drwy'r ysbyty. Bydd ymarferion Argyfwng Meddygol yn cael eu hwyluso'n fisol.	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Clinigol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Clinigol	10 Mehefin 2017 Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl arwyddion yn dangos y lleoliad cywir ar gyfer cyffuriau brys yr ysbyty.	16. Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Mae'r arwyddion wedi cael eu diweddarau a byddant yn cael eu harddangos drwy'r ysbyty.	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Clinigol	10 Mehefin 2017
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau	16. Dyfeisiau, offer a	Mae lleoliad torwyr rhwymynnau wedi ei	Cyfarwyddwr y	10 Mehefin

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
bod torwyr rhwymynnau wedi eu storio gyda'r offer dadebru ar bob ward.	systemau diagnostig meddygol	gofnodi ar arwyddion dadebru. Mae torwyr rhwymynnau wedi eu storio gyda'r offer dadebru ar bob ward a cheir rhestr o gynnwys ar y tu allan i'r bag.	Gwasanaethau Clinigol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Clinigol	2017 10 Mehefin 2017
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod anghenion heb eu diwallu'r cleifion yn cael eu cofnodi yn eu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth.	Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	Bydd anghenion heb eu diwallu yn cael eu trafod yn Rownd Ward pob claf ac yn cael eu cofnodi mewn nodiadau gofal.	Y Tîm Aml-ddisgyblaeth	30 Mehefin 2017
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan yr holl gleifion Basbortau Iechyd cyfredol.	Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	Bydd Pasbort Iechyd pob claf yn cael ei adolygu a'i lanlwytho i nodiadau gofal. Bydd cwblhad yn cael ei fonitro gan reolwyr y wardiau a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Clinigol.	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Clinigol	30 Mehefin 2017
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cael eu cynorthwyo i gwblhau hyfforddiant gorfodol.	Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Mae system e-ddysgu newydd wedi disodli'r hen system ar gyfer hyfforddiant drwy'r fewnwyd a chofnodi hyfforddiant ystafell ddosbarth ac wyneb yn wyneb ar gyfer staff. Wedi ei fonitro gan benaethiaid	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	30 Mehefin 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		adrannau a Chyfarwyddwr yr Ysbyty.		
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y penodir i swyddi gwag.	Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	<p>Mae'r holl swyddi gwag yn cael eu hysbysebu ar wefan Elysium a gwefannau eraill a mynychir ffeiriau swydd a phrifysgolion i greu diddordeb mewn gweithio yn Ysbyty Cefn Carnau.</p> <p>Oherwydd y broses hon, mae gennym dîm amlddisgyblaethol llawn yn eu swyddi ac mae gennym gynigion i bedwar o nyrsys cofrestredig, sy'n cwblhau eu hyfforddiant ym mis Medi.</p> <p>Rydym hefyd wedi cyflogi 13 o gynorthwywr gofal iechyd drwy'r broses hon ac mae saith ohonynt wedi dechrau eu swyddi a phump yn y broses recriwtio.</p> <p>Rydym yn parhau i recriwtio i lenwi unrhyw ddiffygion a chryfhau ein staff cronfa.</p>	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	<p>30 Medi 2017</p> <p>30 Gorffennaf 2017</p> <p>Parhaus</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Andrew Goldsworthy

Swydd: Cyfarwyddwr yr Ysbyty

Dyddiad: 02/06/2017